# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD DRWY DDULL HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, 15 IONAWR 2025 AM 16:00

## Yn bresennol

Cynghorydd H Griffiths - Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | M J Evans | J Gebbie | RM Granville |
| GH Haines | M L Hughes | M Jones | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | JC Spaswick | JH Tildesley MBE |
| A W Ulberini-Williams | I Williams | E D Winstanley | T Wood |

## Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | N Clarke | C L C Davies | N Farr |
| P Ford | W R Goode | S J Griffiths | D T Harrison |
| D M Hughes | RM James | P W Jenkins | M R John |
| W J Kendall | R J Smith | I M Spiller | T Thomas |
| A Wathan | AJ Williams | HM Williams | MJ Williams |
| R Williams | | | |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Y Prif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |

## 80. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Aelodau canlynol:-<br><br>Cyng G Walter<br>Cyng M Kearn |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 81. Datgan Buddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fel y nodir isod, gwnaed datganiadau buddiant personol gan Gynghorwyr yn Eitem 8 ar yr Agenda, gan fod aelodau o'u teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor (GDG) dan gynllun GDG:-<br><br>Cynghorydd N Farr<br>Cynghorydd JC Spanswick<br><br>Datganodd y Cynghorydd T Wood fuddiant personol yn Eitem 8 ar yr Agenda, gan ei fod yn derbyn gostyngiad meddiannaeth unigol i'r Dreth Gyngor am ei eiddo.<br><br>Datganodd y Cynghorydd P Davies fuddiant sy'n rhagfarnu yn Eitem 8 ar yr Agenda., gan fod aelod agos o'r teulu yn derbyn gostyngiad y Dreth Gyngor. Gadawodd y Cynghorydd Davies y cyfarfod tra'r oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried<br><br>Datganodd y Cynghorydd J Pratt fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda, fel aelod o Wylwyr y Glannau Ei Fawrhydi. |
| Dyddiad Gwneud y | 15 Ionawr 2025 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

## 82. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 20 Tachwedd 2024 yn gywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 | |

## 83. Cyflwyniad i'r Cyngor gan gynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a ofynnai i Mr. Fin Monahan, Prif Swyddog, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'i gydweithwyr, i roi cyflwyniad Powerpoint ar waith diweddaraf y gwasanaeth.<br><br>Wedi i'r cyflwyniad ddod i ben, gofynnodd y Maer am gwestiynau gan yr aelodau, a oedd yn cynnwys y canlynol:-<br><br>• Pa rinweddau, gwerthoedd a sgiliau sydd gennych i fynd i'r afael â'r newidiadau gweithredol sydd eu hangen yn y gwasanaeth er mwyn ymdrin yn effeithiol â'r methiannau diwylliannol blaenorol a brofwyd;<br>• Yn Llanilltud Fawr mae pob un o'r 4 gwasanaeth brys yn gweithredu o un lleoliad. Ydych chi'n meddwl bod y math hwn o wasanaeth ar y cyd yn effeithiol ac yn gynaliadwy o ran costau;<br>• O ran cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, nodwyd o'r sleidiau Powerpoint fod oddeutu £3m o ostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn rhwng 2025/26. Roedd gostyngiad tebyg i'w weld yn 2027/28, felly tybed a fyddai modd ichi roi diweddariad ar hyn ar gyfer gweddill 2027/28. Hefyd, pa bwysau o ran costau a ragwelir o fewn y cyfnodau uchod i leihau'r cronfeydd wrth gefn hyn;<br>• O ran estyn allan at y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, hyd y gwn does gennych chi ddim cofnod o niferoedd y plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar hyn o bryd. Allwch chi esbonio pam. Hefyd, sut ydych chi'n cydweithio ac/neu'n cysylltu â gwasanaethau brys eraill fel Heddlu De Cymru ac ati ynghylch gofalu am y rhai mwyaf agored i niwed; |

| | |
|---|---|
| | • O ran cyllid, roedd y cyflwyniad yn cadarnhau bod praesept o 4.88% wedi'i gynnig i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, roedd traean o hwnnw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ffigurau diweddaraf y gyllideb. Cadarnhawyd hefyd yn y cyflwyniad y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael ad-daliad o hyn gan CBSP drwy Lywodraeth Cymru (LlC). A yw hyn yn wir, oherwydd roeddwn i'n tybio bod LlC yn debygol o ad-dalu'r cynnydd yng nghyfraniadau YG y Cyngor, ac o bosib y rhai sydd yn ein 'cadwyn gyflenwi uniongyrchol'. Byddai'n dda cael rhywfaint o eglurder ynghylch hyn;<br>• O ran eich cronfeydd wrth gefn, a yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn pennu cyllideb flwyddyn nesaf ar sail y rhagdybiaeth y gallai fod angen iddo ddefnyddio rhywfaint o arian o'i Gronfeydd Wrth Gefn i fantoli'r gyllideb. Os felly, sut ydych chi'n bwriadu ail-gronni eich cronfeydd wrth gefn, fel eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir; ac<br>• Un agwedd nas trafodwyd yn y cyflwyniad oedd Diogelwch Adeiladau. Gyda’r Ddeddf Diogelwch Adeiladau yn cael ei chynnig ar hyn o bryd fel rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd hon yn her ychwanegol i chi ac, os felly, sut ydych chi’n bwriadu cydweithio ag awdurdodau lleol i orfodi darpariaethau’r ddeddfwriaeth newydd hon, yn enwedig o ran cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân. Oes gennych chi hefyd wybodaeth am lefelau'r cladin a'r adeiladau anniogel o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Ymatebodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i rai o'r cwestiynau uchod, gan ychwanegu, os nad oedd modd ateb y cwestiwn yn foddhaol neu'n llawn, y byddent yn ymateb i'r Cynghorydd a ofynnodd y cwestiwn dan sylw y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>Yn olaf, cyn i'r Maer ddiolch i Mr Fin Monahan a'i gydweithwyr am ddod i'r cyfarfod heddiw, gofynnodd a allent drefnu i anfon y cyflwyniad a roddwyd ganddynt heddiw ymlaen i'r holl aelodau drwy e-bost.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

**84. Derbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd datganiadau gan y pwysigion a ganlyn (ni wnaed/nid oedd angen gwneud unrhyw benderfyniadau):-<br><br>• Y Maer; |

| | |
|---|---|
| | • Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 85. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cafwyd datganiadau gan yr Arweinydd (ni wnaed/nid oedd angen gwneud unrhyw benderfyniadau) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 86. Proses Benodi: Y Prif Weithredwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am y broses recriwtio ar gyfer y Prif Weithredwr.<br><br>Cyfeiriodd yr adroddiad i sylw'r Aelodau gan ddweud y byddai'r Prif Weithredwr cyfredol yn ymddeol o CBSP ar 30 Mehefin 2025.<br><br>Drwy broses dendro gystadleuol, roedd Solace in Business wedi cael ei benodi i gefnogi'r broses recriwtio, ac esboniodd y Swyddog Monitro beth fyddai'r broses honno'n ei golygu yn y cyfarfod.<br><br>Gan fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo penodiad i swydd y Prif Weithredwr, rhagwelwyd y byddai Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn cael ei alw i'r diben hwnnw ar 2 Ebrill 2025, ac y byddai'r dyddiad hwnnw (neu ddyddiad arall) yn cael ei gadarnhau ymhen amser.<br><br>Er y cytunwyd ar aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau yng nghyfarfod Blynyddol diwethaf y Cyngor, byddai dau eilydd nawr yn cael eu cynnwys ar y panel i ystyried penodiad y Prif Weithredwr, o'r grwpiau Llafur a BCI. |

| | |
|---|---|
| | Byddai'r Pwyllgor Penodiadau ar gyfer y penodiad hwn felly'n cynnwys y canlynol:-<br><br>Cynghorydd JC Spanswick (Cadeirydd)<br>Cynghorydd J Gebbie<br>Cynghorydd Amanda Williams (yn lle'r Cynghorydd T Wood)<br>Cynghorydd I Spiller<br>Cynghorydd R Penhale-Thomas<br>Cynghorydd RM James<br>Cynghorydd M Evans (yn lle'r Cynghorydd HM Williams)<br>Cynghorydd J Paul-Blundell<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r broses recriwtio, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

**87. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2025-26**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid adroddiad er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (GDG) arfaethedig ar gyfer 2025-26, a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu'r cynllun GDG hwn erbyn 31 Ionawr 2025.<br><br>Dywedodd fod Cynulliad Cymru wedi gosod rheoliadau ar 27 Tachwedd 2013 i roi'r trefniadau ar waith i gefnogi'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 yn rhagnodi prif nodweddion y cynllun sydd i'w fabwysiadu gan bob cyngor yng Nghymru. Ers hynny cyflwynwyd mân ddiwygiadau i'r rheoliadau hyn ym mhob blwyddyn ariannol.<br><br>Roedd y rheoliadau'n uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddiwyd yn y cynlluniau GDG ac yn gwneud diwygiadau i'r categorïau a adlewyrchir yn y pwyntiau bwled ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.<br><br>Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun GDG, waeth a yw'n |

| | |
|---|---|
| | berthnasol i unrhyw un o'r elfennau dewisol sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynllun ai peidio. Os na fydd y Cyngor yn cymeradwyo cynllun, bydd y cynllun diofyn yn berthnasol. Ni all y Cyngor ond cymhwyso elfen ddewisol os yw'n creu ei gynllun ei hun yn unol â'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig.<br><br>Cynigiwyd y dylid cadw elfennau dewisol y Cynllun GDG fel a ganlyn:<br><br>• Cadw'r cyfnod talu estynedig ar y safon isafswm o 4 wythnos.<br><br>• Bod Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel yn cael eu hanwybyddu'n llwyr wrth gyfrifo'r hawl i dderbyn GDG. Amcangyfrifir mai cost y cynnig hwn o fewn y flwyddyn ariannol yw £5,773.<br><br>• Parhau i ôl-ddyddio am y safon isafswm o 3 mis.<br><br>Amcangyfrifir mai cost y tri chynnig hyn i'r Cyngor yw £5,773 ar gyfer 2025-26.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn nodi’r wybodaeth uchod ac yn yr adroddiad ac yn mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor 2025-26, fel y nodwyd ym mharagraffau 3.15 i 3.20 (yr adroddiad). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 88. Diwygio'r Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn Ariannol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad er mwyn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.<br><br>Yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 20 Tachwedd 2024, esboniodd fod y Rheolau hynny wedi cael eu diwygio ymhellach gan swyddogion ac Aelodau'r Cabinet.<br><br>Felly, ers hynny, ar 14 Ionawr 2025 cymeradwyodd y Cabinet y diwygiadau pellach i'r Rheolau, fel y dangoswyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad, ac a atodwyd yn Atodiad 1 (yr adroddiad). |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd Aelod at y diwygiad yn gysylltiedig â pharagraff 9.4 y Rheolau, lle cyfeiriwyd at y ffaith bod nifer fach o eithriadau lle caniateir gwneud rhai taliadau ymlaen llaw heb gymeradwyaeth flaenorol. Nododd fod y rhain yn cynnwys taliadau i sefydliadau'r Trydydd Sector. Gofynnodd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid a allai hi rannu ychydig mwy o wybodaeth am hyn.<br><br>Dywedodd y byddai asesiad priodol yn cael ei gynnal o unrhyw sefydliad trydydd sector a fyddai'n gofyn am daliad ymlaen llaw i weld a oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Lle gellir profi caledi ariannol, sef y gallai'r sefydliad wynebu caledi ariannol pe na bai'n cael ei dalu ymlaen llaw, gellid gwneud taliad i'r sefydliad dan sylw ymlaen llaw.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 89. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Hysbysodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol y Cyngor am adroddiad i'w nodi er gwybodaeth, a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 90. Derbyn y Cwestiwn canlynol gan:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cynghorydd Martin Williams i'r Arweinydd (anfonwyd yr ymateb ymhlith yr Aelodau cyn y cyfarfod). |

| | |
|---|---|
| | Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams (i'r Arweinydd) yn y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 91. Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd Ian Williams

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cynigiwyd yr Hysbysiad o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Ian Williams:-<br><br>“Yn ystod yr ymgynghoriad diweddar a'r cyfarfod Teams dilynol ag Arcadis ynghylch y Caffi a'r Ardal Ddiwylliannol roedd hi'n amlwg o'r tri opsiwn a gyflwynwyd nad oedd ailgyflwyno traffig yn ddiogel ar Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad wedi cael ei ystyried hyd yma.<br><br>Nodwyd hefyd nad oedd "Diweddariad ynghylch Canol Dinas Pen-y-bont ar Ogwr...Awst 24" ond yn cyfeirio at "ddad-bedestreiddio llwyr".<br><br>Bod y Cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet ystyried ymrwymo i ailgyflwyno traffig yn rhannol i Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, i gefnogi masnachwyr canol y dref a'r ymgynghoriad a phreswylwyr a gydnabuwyd yn flaenorol."<br><br>Cynigiwyd gwelliant i’r Cynnig ac fe’i heiliwyd yn briodol, a chytunodd y Cyngor arno. Felly, roedd y Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a gefnogwyd drwy hynny, fel a ganlyn, gyda'r diwygiad wedi'i ddangos isod mewn print trwm.<br><br>“Yn ystod yr ymgynghoriad diweddar a'r cyfarfod Teams dilynol ag Arcadis ynghylch y Caffi a'r Ardal Ddiwylliannol roedd hi'n amlwg o'r tri opsiwn a gyflwynwyd nad oedd ailgyflwyno traffig yn ddiogel ar Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad wedi cael ei ystyried hyd yma.<br><br>Nodwyd hefyd nad oedd "Diweddariad ynghylch Canol Dinas Pen-y-bont ar Ogwr...Awst 24" ond yn cyfeirio at "ddad-bedestreiddio llwyr".<br><br>**Bod y Cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet ystyried ymrwymo i ailgyflwyno traffig yn rhannol a moderneiddio'r holl drafnidiaeth a mynediad i Stryd y Frenhines, Dunraven Place a Stryd y Farchnad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, i gefnogi masnachwyr canol y dref a'r ymgynghoriad â phreswylwyr a gydnabuwyd yn flaenorol.** |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

## 92. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Ionawr 2025 |

I arsylwi trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18:10.